



33. CANLYNIADAU (Stori o Haiti)

Roedd Daniel yn byw yn Haiti, mewn tŷ bach yn y wlad. Drws nesaf roedd Monsieur Dupont yn byw mewn tŷ mwy. Adeiladwyd tŷ Monsieur Dupont o friflociau ac roedd iddo do sinc. Tŷ to gwellt o fwd a changhennau oedd un Daniel. Gwisgai Monsieur Dupont drowsus glân, sandalau lledr, siaced ysgafn a het wellt newydd. Gwisgai Daniel jîns budr, sandalau plastig rhad, hen het wellt byglyd a chrys-T ail-law gyda '*Shop till you drop*' wedi ei ysgrifennu ar ei gefn. Roedd Monsieur Dupont yn berchen ar geffyl, ond nid oedd Daniel. Wedi ystyried y cwbl roedd Monsieur Dupont dipyn mwy cefnog na Daniel, ac roedd Daniel yn genfigennus.

Ar y pryd roedd llawer o helyntion yn y wlad. Roedd sawl grŵp arfog ar ôl ei gilydd wedi gwthio eu ffordd i balas yr arlywydd gan ddisodli llywodraeth y wlad. Bob tro y digwyddai hyn fe'i dilynid gan gyfnod o anhrefn a thorcyfraith. Gosodid rhwystrau ar y ffyrdd, ceid cyfnodau o saethu ar y strydoedd, a byddai rhai'n manteisio ar y sefyllfa i setlo hen gwerylon. Byddai pobl o'r fath yn debygol o droi at *dechouquer* (ynganir *de-shw-cer*), sef ffordd o ddial ar rywun oedd wedi eu twyllo neu eu sarhau trwy losgi eu heiddo a'u gadael yn ddi-gartref.

Nawr, nid oedd Monsieur Dupont yn ŵr poblogaidd yn ei gymuned. Yr oedd wedi digio nifer o bobl. Ac felly, yn y flwyddyn newydd pan gafwyd ymosodiad arall ar y llywodraeth, aeth Daniel ati i geisio troi criw o'i ffrindiau yn erbyn Monsieur Dupont. 'Fe wyddoch chi pam fod Dupont mor gyfoethog, mae'n debyg?' meddai Daniel. 'Roedd o'n arfer bod yn aelod o'r heddlu cudd.'

Poeri! Rhegi! Casâi pawb yr heddlu cudd. Wrth gwrs, nid oedd gan Daniel brawf *fod* Monsieur Dupont erioed wedi gweithio iddynt. Ond gan nad oedd neb yn hoff o Dupont, yr oedd pawb yn barod i'w gredu.

'Wel, am beth 'dech chi'n aros? Dowch, fe awn i *dechouger* Dupont.' Wedi eu harfogi â cherrig, twceiod (*machetes*) a thorchau tân, aeth Daniel a'i griw ar eu hôl.

Aeth popeth fel cloc. Gwyddai Monsieur Dupont y rheolau. Pan welech griw yn dod i'ch *dechouger*, rhaid oedd dianc – a hynny'n gyflym. Petai o heb fachu ei wn – reiffl henffasiwn – fyddai dim cyffro wedi bod o gwbl. Ond fe wnaeth – a chododd helynt. Bang! Taniodd y gwn. Dihangodd Monsieur Dupont. Ond wrth iddo fynd sylwodd Daniel ar rywbeth tywyll yn gorwedd ar y buarth. Yr oedd rhywun wedi cael ei anafu. Roedd y fwled wedi lladd ceffyl Dupont.

Y diwrnod canlynol roedd hi'n braf ac aeth Daniel i weithio yn y caeau. Bob tro y câi Daniel gipolwg ar dŷ gwag Monsieur Dupont gwenai'n dawel bach. Dim mwy o Dupont. Gwych! Dim ond pan gyrhaeddodd o adref y noson honno y sylweddolodd nad oedd pethau mor dda mewn gwirionedd.

Pŵ! Roedd arogl drwg yn y buarth – arogl tebyg i gwter yr oedd angen ei glanhau. Ond nid oedd cwteri o unrhyw fath yng nghwt to gwellt Daniel. Am ennyd nid oedd ganddo syniad beth oedd yr arogl – ond yna cofiodd am y ceffyl marw. Roedd hwnnw'n dechrau pydru. Y bore canlynol roedd yr arogl yn waeth, a chyn bo hir roedd arogl y 'ceffyl pwdr' yn hongian uwchlaw'r lle fel rhyw gwmwl gwenwynig. Erbyn diwedd yr wythnos roedd wedi cymryd bywyd Daniel drosodd. Dyna'r peth cyntaf a aroglai wrth godi yn y bore a'r peth olaf a aroglai wrth fynd i'w wely gyda'r nos. Roedd yn ei arogl ar ei groen. Roedd yn ei arogl ar ei ddillad. Roedd yn ei

flasu yn ei fwyd. ‘Mae hyn yn annioddefol,’ meddylodd.

Felly anfonodd am ei ffrindiau. ‘Ych, am oglau!’ Safai pawb o amgylch yn pinsio’u trwynau a cheisio lladd pryfed. ‘Dwi angen eich help i gael yr anifail oddi yma,’ eglurodd Daniel.

Cymerodd ei gyfeillion un olwg ar y corff erchyll llysnafeddog ac ysgwyd eu pennau. Nid oeddent am ei gyffwrdd. Dim peryg!

‘Wyt ti wedi meddwl mynd at yr heddlu?’ awgrymodd un ohonynt.

Wrth glywed hyn daeth syniad da i ben Daniel. Roedd gan y plismyn lorri fechan. Y cyfan y byddai angen iddynt ei wneud fyddai llwytho’r ceffyl ac i fwrdd â hwy.

Roedd y swyddfa heddlu leol wedi ei lleoli mewn cwt bach lliw hufen ar ochr y briffordd. Eisteddai dau swyddog y tu allan, a’u traed i fyny ar ddwy stôl, yn chwarae dominos. ‘Mae yna geffyl marw gerllaw ’nghartref i ac mae angen ei symud,’ dywedodd Daniel wrthynt. Er mawr ddiflastod iddo nid oedd ganddynt unrhyw ddiddordeb. Yn wir, prin y cododd yr un o’r ddau eu pennau.

‘Gwrandewch!’ meddai Daniel. ‘Mae’r ceffyl yn berygl i iechyd y cyhoedd. Mae’n ddyletswydd arnoch ei symud.’

Nawr, nid oedd y plismyn yn dwp. Roedd ganddynt syniad go dda fod gan Daniel ryw ran yn y cawl. Wrth glywed hyn fe gododd un ohonynt ei ben. Syllodd i fyw llygaid Daniel – edrychiad hir. ‘Felly, rwyd ti am i ni wneud ein dyletswydd, wyt ti?’

Wps! Efallai bod Daniel am iddynt gyflawni eu dyletswydd wrth symud y ceffyl, ond nid oedd am iddynt gyflawni eu dyletswydd pan olygai hynny y gallai ef gael ei arestio. ‘Na ... ym ... ie ... dim bwys,’ meddai gan ei heglu hi oddi yno mor gyflym â phosibl.

Wel am lanast! Am lanast afiach ffôl! Nawr, yr unig ffordd ar ôl i symud y ceffyl oedd talu rhywun i wneud hynny. A byddai hynny’n sicr o gostio’n ddrud.

Roedd yr ymosodiad ar y llywodraeth trosodd ers sbel. Bellach roedd popeth yn rhedeg fel arfer yn y wlad. Erbyn hyn dylai Daniel fod allan yn y caeau yn gofalu am y cynydau. Yn hytrach, darganfu ei hunan yn gorfod codi arian – trwy osod rhwystrau ar y ffyrdd a mynnu arian gan deithwyr cyn caniatáu iddynt barhau ar eu taith. Roedd yn fusnes peryglus. Roedd hefyd yn ddiflas (weithiau ni

fyddai'r un cerbyd yn pasio am oriau lawer!) Ac yntau yng nghanol y fath helbul byddai Daniel yn fodlon gwneud unrhyw beth i gael troi'r cloc yn ôl. Ond nid fel yna mae bywyd. Fedrwch chi ddim golchi'r llechen yn lân unwaith y mae drwg wedi cael ei wneud. Mae'n rhaid byw gyda'r canlyniadau. Mae'n rhaid medi yr hyn rydych chi'n ei hau.

HYD: 5 munud

NEGES: Os ydych yn torri rheolau Duw rhaid byw gyda'r canlyniadau.

DARLLEN: Genesis 2: 15–17; 3: 1–24; Galatiaid 6: 7–10